

Dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Crynodeb o'r ymateb
Rhif: WG43337**

Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Nghymru

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

WG42168 - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Nghymru

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 22 Mawrth 2021 a daeth i ben ar 17 Mai 2021.
Cafwyd 65 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm Iechyd Pobl Hŷn
Iechyd y Boblogaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NB

E-bost: BereavementConsultation@gov.wales

Copiau Ychwanegol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cynnwys

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

1.1 Cyflwyniad

Mae'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer darparu gofal mewn profedigaeth yng Nghymru yn ceisio nodi sut y gallwn ni yng Nghymru ymateb i'r rheini sy'n wynebu profedigaeth ar hyn o bryd, neu sydd wedi wynebu profedigaeth yn y gorffennol. Mae'n disgrifio gweledigaeth ar gyfer Cymru Dosturiol lle mae gan bawb fynediad cyfartal at ofal a chymorth o ansawdd uchel mewn profedigaeth pan fydd angen hynny. Mae'r fframwaith yn cynnwys egwyddorion craidd, safonau gofynnol ac ystod o gamau gweithredu i gefnogi cynllunio rhanbarthol a lleol. Hefyd, mae'n cydnabod y bydd effeithiau hirdymor yn sgil y pandemig, ac yn cynnwys adran am ddysgu gwersi yn sgil COVID-19.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Gellir diffinio profedigaeth fel y tristwch yr ydych yn ei deimlo neu'r cyflwr yr ydych ynddo pan fydd perthynas neu ffrind agos yn marw. Mae profedigaeth yn gysylltiedig â mwy o risg i iechyd meddwl, morbidrwydd a marwolaeth, a gall gwasanaethau sy'n darparu cymorth mewn profedigaeth fod yn hanfodol wrth reoli'r risgiau hyn. Gall cymorth mewn profedigaeth hefyd leihau effaith emosiynol, corfforol a meddyliol galar.

Cafodd astudiaeth gwmpasu o wasanaethau profedigaeth ei chynnal gan Brifysgol Caerdydd ar y cyd â Marie Curie a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, ar ran y Bwrdd Gofal Diwedd Oes. Roedd yr astudiaeth yn mapio'r cymorth presennol, yn amrywio o gyfeirio i gwnsela arbenigol, ac yn nodi meysydd lle mae angen adnoddau pellach. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ym mis Rhagfyr 2019 a gellir ei gweld yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arolwg-cwmpasu-o-wasanaethau-profedigaeth-yng--nghymru-adroddiad-diwedd-astudiaeth.pdf>

Roedd cwmpas yr astudiaeth yn cwmpasu'r ystod eang o gymorth profedigaeth, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd yn tynnu sylw at y bylchau a'r heriau o ran cymorth mewn profedigaeth, ac yn codi nifer o ystyriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar yr angen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth yng Nghymru.

Byddai fframwaith cenedlaethol yn cefnogi sefydlu llwybrau atgyfeirio clir, asesiadau risg ac anghenion, hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr, a chyfeiriadur o ddarpariaeth profedigaeth sydd ar gael. Byddai hefyd yn cefnogi gwelliannau o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu gwerthuso a'u hasesu ac yn cyflwyno safonau i'w defnyddio fel dulliau archwilio a gwella ansawdd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth profedigaeth, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £1.4m ychwanegol ar gael ar gyfer cymorth profedigaeth rhwng 2021 a 2024.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Agorodd yr ymgynghoriad ar 22 Mawrth 2021 a daeth i ben ar 17 Mai 2021. Cafwyd 65 ymateb i'r ymgynghoriad gan unigolion ac amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, y Colegau Brenhinol, y Cyngor Meddygol Cyffredinol, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd.

Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, ar gael yn Adran 2.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad.

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

Cwestiwn 1: A yw'n glir ar gyfer pwy mae'r fframwaith profedigaeth hwn a pham ei fod wedi cael ei ddatblygu?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno bod y fframwaith yn glir, i bwy yr oedd a pham y cafodd ei ddatblygu. Roedd llawer yn teimlo bod y gwaith hwn yn *amserol*, a'i bod yn *braf gweld dull cydgynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio*, gan gynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol yn y gwaith hwn. Cafwyd sylwadau y bydd y fframwaith yn helpu i leihau anghydraddoldebau ledled Cymru, ac y bydd hyn yn dechrau helpu i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â siarad am farw a gofal diwedd oes.

Roedd rhai yn teimlo nad oedd y ddogfen yn benodol o ran at bwy y cyfeirir hi, gan ei bod yn ceisio cyfeirio at nifer o gynulleidfaoedd. Teimlwyd y dylid tynnu sylw at gyfrifoldebau, yn enwedig cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.

Roedd un sylw yn sôn bod problemau'n codi'n aml wrth gydnabod bod profedigaeth wedi digwydd, gan arwain at alar wedi'i ddifreinio. Cyfeiriwyd at enghraifft o golled yn ystod beichiogrwydd, lle, yn achos camesgoriad cynnar, mae'n bosibl na fyddai'r rhieni bob amser yn teimlo bod y farwolaeth wedi cael ei chydabod, na'u bod wedi cael profedigaeth.

Cwestiwn 2: Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a gwella eu mynediad iddynt (adran 4)?

Roedd llawer o'r sylwadau'n cefnogi'r angen am well darpariaeth a mynediad at wasanaethau profedigaeth i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig, ond roeddent yn tueddu i ganolbwyntio ar y 'pwy' yn hytrach na 'sut' y gellid gwella hyn.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod angen ymgysylltu'n eang â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, a mynd allan i'r grwpiau hyn drwy allgymorth cadarnhaol, oherwydd mae'n bosibl na fydd llawer o grwpiau'n dod ymlaen fel arall. Roedd y sylwadau'n cynnwys *'angen ymgysylltu, cynnwys mewn dylunio gwasanaethau/cyd-gynhyrchu, a sicrhau allgymorth gweithredol gyda grwpiau cymunedol, grwpiau ffocws'*.

Roedd galw hefyd i'r cyfathrebu hwn ddigwydd mewn gwahanol ieithoedd: *'Cynnig amrywiaeth o ffyrdd o gysylltu a chyfathrebu, ac mewn fformatau sy'n hawdd eu deall, ac mewn gwahanol ieithoedd'*.

Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gydnabod normau diwylliannol a phrofiadau grwpiau penodol mewn cymdeithas, yn ogystal ag anghenion pobl ag anableddau, gan gynnwys anableddau dysgu a phlant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA).

Cwestiwn 3: A oes unrhyw fodelau / rhaglenni cymorth eraill (Adran 6) y dylai'r Fframwaith fod yn cyfeirio atynt?

A yw'r fframwaith yn glir wrth amlinellu cyfrifoldebau ar draws pob maes iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer ystyried anghenion cymorth a mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer profedigaeth?

Roedd yr ymatebion i gwestiwn 3 yn tynnu sylw at anghenion pobl â dementia, problemau iechyd meddwl, pwysigrwydd a goblygiadau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a Fframwaith NEST (sy'n ceisio sicrhau dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer datblygu gwasanaethau cymorth, llesiant ac iechyd meddwl). Gofynnodd un ymatebydd a allai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried cymorth mewn profedigaeth yn eu gwaith Asesu Anghenion y Boblogaeth. Nododd ymatebydd arall fod angen *'Cydnabod y ddarpariaeth lai cyfartal ar gyfer marwolaethau yn y gymuned'*.

Tynnwyd sylw hefyd at ddiffyg Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol yng Nghymru ac ansawdd y gofal y mae teuluoedd mewn profedigaeth yn ei dderbyn yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl colli babi.

Cwestiwn 4: A yw'r adran Dysgu o Covid-19 (Adran 9) yn rhoi digon o sylw i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, a'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod gofal a chymorth profedigaeth o ansawdd uchel ar gael i bawb sydd angen hynny yng Nghymru?

Cafwyd sylwadau gan nifer o aelodau'r cyhoedd a ddisgrifiodd eu profiadau personol yn ystod y pandemig. Dywedodd un ymatebydd wrth sôn am ei phrofiad: *'Roedd y bobl a oedd wedi cael profedigaeth yn teimlo'n ynysig. Roedd y gefnogaeth a'r ddealltwriaeth yn gwbl ddiffygiol'*.

Soniodd ymatebydd arall am yr angen i wella cyfathrebu rhwng perthnasau, cleifion a staff, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ar ddiwedd eu hoes. Cafwyd enghraifft o brofiadau pobl a oedd wedi colli babi, a'u partneriaid yn cael eu heithrio o apwyntiadau a sganiau, a'r diffyg cymorth cyffredinol a deimlwyd yn ystod y pandemig.

Cyfeiriodd sylwadau eraill at werth Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw, a allai fod wedi bod o gymorth i rai teuluoedd ac o bosibl wedi lleihau adweithiau mwy cymhleth i alar.

Cwestiwn 5: Sut gellir darparu gwasanaethau profedigaeth yn well i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a gwella eu mynediad iddynt? (Adran 10).

Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys yr angen i gael dealltwriaeth o gymunedau ac i gynnig gwasanaethau sydd ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd.

Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am ymgysylltu mwy gweithredol, ac i godi ymwybyddiaeth/rhoi gwybodaeth i gymunedau lleol, i gyd-gynhyrchu gwasanaethau, eu teilwra i anghenion lleol, a'r angen i greu cysylltiadau cryfach â'r gymuned: *'Gwasanaethau yn y cymunedau wedi'u darparu gan aelodau o'r cymunedau hynny, lle bo hynny'n bosibl'*.

Cwestiwn 6: A ydych yn credu y gellir cryfhau'r adran ar Hyfforddiant, Dysgu a Goruchwyllo ar gyfer unigolion sy'n darparu cymorth profedigaeth ac i weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl sydd mewn profedigaeth (Adran 11) er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu profedigaeth, addysg a recriwtio.

Cafwyd sylwadau am yr angen i hyfforddi amrywiaeth o weithwyr mewn gofal diwedd oes / cefnogaeth / ymwybyddiaeth o brofedigaeth, gan gydnabod y gall unigolion mewn sawl rôl wahanol fod yn "rheng flaen", e.e. staff mewn cartrefi gofal, iechyd a gofal, staff anghlinigol mewn ysbytai a meddygfeydd ac ati.

Tynnwyd sylw at y cyfraniad allweddol a wnaed gan wirfoddolwyr wrth ddarparu cymorth mewn profedigaeth, ynghyd â'r angen i sicrhau bod y gwirfoddolwyr hynny'n cael yr hyfforddiant sy'n ofynnol i ymgymryd â'r rôl hon.

Cwestiwn 7: A yw'r adran ar lwybrau atgyfeirio (adran 12) yn darparu digon o wybodaeth am y llwybr y gall pobl ei ddilyn i gael gafael ar gymorth mewn profedigaeth?

Cafwyd sylwadau am yr angen am lwybrau atgyfeirio clir a chryno, gyda'r amseroedd aros yn cael eu cadw mor fyr â phosibl, am wneud adolygiadau rheolaidd o gleientiaid sy'n aros am gefnogaeth, ac i sefydliadau fod yn glir ynghylch sut y bydd pobl yn cael eu cefnogi tra byddant yn aros am y cymorth hwnnw. Roedd galw hefyd i wybodaeth gyfredol fod ar gael am y gwasanaethau a ddarperir, a'r gallu i gyfeirio achosion yn electronig.

Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd y cleientiaid hynny a oedd yn dymuno cael cymorth yn Gymraeg.

Cwestiwn 8: A ddylai'r fframwaith fod yn cyfeirio at fathau eraill o hunanreolaeth/hunanofal (adran 13)?

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y rôl bwysig y gall hunanofal ei chwarae mewn cymorth mewn profedigaeth ac yn cyfeirio at amrywiaeth eang o fathau o becynnau hunanreoli sydd ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys pecynnau ar-lein ar gyfer therapi gwybyddol ymddygiadol, ymwybyddiaeth ofalgar, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis grwpiau profedigaeth, grwpiau cymunedol lleol, grwpiau ffydd, encilion ysbrydol ac encilion galar.

Soniwyd hefyd am yr angen i unigolion a gyfeirir at becynnau hunanreoli gael asesiad risg priodol.

Cwestiwn 9: A yw'r Safonau Profedigaeth (Atodiad 1) yn nodi pa feysydd mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn i wasanaethau cymorth profedigaeth fod yn ddiogel ac yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion pobl sydd mewn profedigaeth? A yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r safonau hyn?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag eglurder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am adolygu a monitro cydymffurfiaeth â'r safonau a amlinellir yn y fframwaith. Gofynnodd un ymatebydd a oedd y safonau'n orfodol, a beth fyddai'r goblygiadau o ran peidio â chydymffurfio.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys '*Beth yw'r safonau ar gyfer darparu cymorth a gofal mewn profedigaeth yn Gymraeg?*' a '*Pwy fydd yn dal y Comisiynwyr i gyfrif?*'.

Cwestiwn 10: Rydym eisiau clywed eich safbwyntiau ynghylch sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fframwaith/safonau profedigaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n briodol. A yw'n glir sut bydd gweithrediad y fframwaith yn cael ei fonitro i weld a fydd yn cael effaith ymarferol ar ddarparu gofal profedigaeth yng Nghymru?

Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y dylid cael mecanwaith adborth i sicrhau yr ymgynghorwyd â phobl mewn profedigaeth ynghylch eu profiadau gyda chymorth profedigaeth: '*Cynnal adborth gan bobl mewn profedigaeth yng Nghymru. Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu profiad o'r gwasanaethau a ddarperir*'.

Nododd ymatebydd arall y dylid '*Monitro sicrwydd ansawdd ar draws hapsamp*'.

Awgrymwyd hefyd y dylid cael trefniadau monitro safonol ar waith '*ar gyfer pob BILL, Awdurdod a sefydliad trydydd sector ledled Cymru*'. Crybwyllwyd y cysylltiad rhwng darparu gofal diwedd oes a chymorth mewn profedigaeth mewn un ymateb, a alwodd am '*fecanwaith adrodd clir drwy'r Bwrdd Gofal Diwedd Oes a'r Grŵp Llywio Profedigaeth gyda data gan Gomisiynwyr a darparwyr*'.

Cwestiwn 11: Hoffem wybod eich barn am effaith y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal Profedigaeth yng Nghymru ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 12: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Darparu Gofal mewn Galar yng Nghymru gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl

ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafwyd llawer o sylwadau a oedd yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod pob cymorth mewn profedigaeth yn cael ei gynnig yn Gymraeg fel mater o drefn: *'Darparu'r un faint o gefnogaeth yn y Gymraeg. Mae rhai pobl yn ei chael yn anodd mynegi eu hemosiynau yn Saesneg os mai Cymraeg yw eu hiaith gyntaf'*. Cyfeiriwyd hefyd at y Cynnig Gweithredol: *'Fel rhan o'r "Cynnig Rhagweithiol", rhaid i sgysiau gael eu cynnig yn Gymraeg neu yn Saesneg'*.

Roedd sylwadau eraill yn cyfeirio at anghenion pobl mewn profedigaeth sy'n byw gyda dementia: *'Gall pobl â dementia gollu'r gallu i sgwrsio mewn iaith nad yw'n iaith gyntaf iddynt'*.

Cwestiwn 13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu/camau nesaf sydd ar goll y dylai'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth eu cymryd yn eich barn chi, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt:

Cafwyd amrywiaeth o sylwadau ynghylch cynrychiolaeth ar y grŵp llywio profedigaeth, y cymorth profedigaeth sydd ei angen yn achos rhai mathau o brofedigaeth, marwolaethau sydyn, ac anghenion pobl ag anabledau a grwpiau o bobl agored i niwed. Soniodd un ymatebydd am yr *'Angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut y gall ffrindiau a pherthnasau helpu pobl sydd wedi cael profedigaeth'*.

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Cafwyd llawer o ymatebion meddylgar ac ystyrlon, gydag ymdrech ac ymchwil sylweddol wedi'i wneud gan lawer o bobl a roddodd o'u hamser i ymateb.

Amlinellodd rhai ymatebwyr eu profiadau personol o brofedigaeth yn gyffredinol, a phrofedigaeth yn ystod y pandemig. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r holl ymatebwyr am rannu eu safbwyntiau mor agored ar bwnc mor anodd.

Un o gryfderau'r fframwaith yw'r dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd, sy'n cyfeirio at nifer o gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mae angen cael prif gynulleidfa, ac mae hyn wedi cael ei nodi fel comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau profedigaeth yn y fframwaith terfynol, er mai'r bwriad yw bod y fframwaith yn dal i gael ei eirio mewn ffordd sy'n ei wneud yn ddealladwy ac yn berthnasol i eraill.

Mae'r cysylltiad rhwng cael gofal diwedd oes da, galar rhagflaenol, cynllunio gofal ymlaen llaw a chymorth profedigaeth wedi cael ei ychwanegu at y fframwaith diwygiedig. Mae gwahaniaethau hefyd wedi cael eu gwneud rhwng y cymorth sydd ei angen ar deuluoedd lle gellir rhagweld profedigaeth, a'r rheini sy'n dioddef profedigaeth sydyn, lle gallai amgylchiadau'r farwolaeth a'r cymorth cychwynnol y gallai fod ei angen ar bobl mewn profedigaeth fod yn wahanol iawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Cymru Garedig, ein cydweithwyr yn y GIG a llawer o rai eraill ledled Cymru i hyrwyddo sgwrs ehangach am ofalu am bobl ar ddiwedd eu hoes, cynllunio gofal ymlaen llaw, a sgysiau "beth sydd bwysicaf", marw a phrofedigaeth. Mae'r fframwaith hwn yn rhan o'r gweithgareddau cyffredinol hynny.

Dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Amlinellir yr angen am allgymorth rhagweithiol i gymunedau a allai ei chael yn anodd cael gafael ar gymorth, i bobl anabl ac i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig. Mae gwir angen i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau profedigaeth sicrhau bod allgymorth o'r fath yn digwydd, a bod y cymorth sy'n deillio o hynny'n cael ei gyd-gynhyrchu gyda'r cymunedau hynny ac, os yw'n bosibl, yn cael ei ddarparu ganddynt.

Mae'r hyn a ddysgwyd o COVID-19 a amlygwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos bod effeithiau sy'n deillio o bobl yn cael eu hynysu oddi wrth eu mecanweithiau cymorth arferol, gan gynnwys diffyg cyfleoedd i ymweld â phobl a chael cymorth anffurfiol, sydd mor bwysig. Mae lefel y dyngarwch a ddangosir mewn ysbytai ar ôl marwolaeth, a rhoi amser i deuluoedd mewn profedigaeth fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu "symud ymlaen", yn bwysig ac wedi'i gynnwys.

Rydym hefyd wedi ychwanegu sut bydd safonau profedigaeth yn cael eu monitro gan Lywodraeth Cymru yn y fframwaith ac yn nodi'r gofynion ar gyfer sefydlu safonau sylfaenol a monitro parhaus, a gofynnir i gomisiynwyr adrodd ar eu perfformiad yn rheolaidd.

Roedd y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth yn gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith i ddechrau, a bu iddynt gyfarfod ddwywaith ar ôl i'r broses ymgynghori ddod i ben er mwyn trafod yr ymatebion ac i roi cyngor ar newidiadau pellach. Gwnaed newidiadau dilynol i'r ddogfen fel y barnwyd yn briodol.

Cafwyd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad y teimlwyd eu bod y tu hwnt i gylch gwaith y fframwaith. Lle bo'n berthnasol, mae'r ymatebion hyn yn cael eu hystyried gan y Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol fel rhan o'i raglen waith barhaus.

Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol le/Na	Sefydliad/Ar ran
00001	le	Dienw
00002	le	Dienw
00003	le	Dienw
00004	le	Dienw
00005	le	Dienw
00006	Na	Antenatal Results & Choices
00007	le	Dienw
00008	le	GIG Cymru
00009	le	Dienw
00010	Na	GIG Cymru
00011	Na	GIG Cymru
00012	Na	Gwasanaethau Ysgolion Ceredigion
00013	Na	Coleg Brenhinol y Bydwagedd
00014	Na	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
00015	Na	Coleg Brenhinol Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
00016	Na	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
00017	Na	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
00018	Na	Cymdeithas Meddygaeth Liniarol
00019	le	Dienw
00020	Na	Tîm Partneriaeth Ranbarthol Gwent
00021	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
00022	Na	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
00023	Na	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
00024	Na	Gofal Cymdeithasol Cymru
00025	Na	Gofalwyr Cymru
00026	Na	Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
00027	Na	Adran Gofal Lliniarol Arbenigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
00028	Na	Age Cymru
00029	Na	Adran Llywodraethu Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
00030	Na	Marie Curie
00031	Na	Tenovus Cancer Care
00032	Na	Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion
00033	le	Dienw
00034	le	Dienw
00035	le	Dienw
00036	le	Dienw
00037	Na	Cymorth Canser Macmillan
00038	Na	Pregnancy Crisis Care
00039	Na	Hospice UK a Hospices Cymru
00040	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
00041	Na	Fforwm Profedigaeth Sir Benfro
00042	Na	Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
00043	Na	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
00044	Na	Prifysgol Caeredin
00046	Na	Cyngor Meddygol Cyffredinol Cymru
00047	le	Dienw
00048	Na	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
00049	Na	Together for Short Lives

Dogfen Ymateb i'r Ymgynghoriad

00050	Na	Rhaglen Gydwethredol y GIG a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
00051	Na	Comisiynydd Plant Cymru
00052	Na	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
00053	Na	Comisiynydd y Gymraeg
Rhif	Cyfrinachol le/Na	Sefydliad/Ar ran
00054	Na	Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
00055	Na	Grŵp Gofal Diwedd Oes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
00056	Na	Alzheimer's Society
00057	Na	Anabledd Dysgu Cymru
00058	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
00059	Na	Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys
00060	Na	Coleg Brenhinol y Meddygon
00061	Na	Awdurdod Lleol Abertawe
00062	Na	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
00063	Na	At a Loss
00064	Na	Uned Cyswllt yr Heddlu
00065	Na	Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain